



Mae'n teimlo fel pe bai'r Flwyddyn Newydd newydd ddechrau, ond mae arwyddion o'r Gwanwyn i'w gweld barod. Nid yn unig y mae hanner tymor y Gwanwyn wedi cyrraedd, ond hefyd bydd y clociau'n newid yn fuan a byddwch yn sylwi ar liwiau mewn gerddi ledled y wlad! Mwynhewch ddarllen am yr hyn rydym wedi bod yn ei wneud yn ystod hanner tymor cyntaf 2018...

Blwyddyn 7 yn datblygu eu hochr greadigol

Dros y pum wythnos ddiwethaf, mae ein disgyblion Blwyddyn 7 wedi bod yn meithrin ffordd greadigol o weithio ar eu gwersi DSB (Dysgu Seiliedig ar Brofiad). Mae pedwar artist wedi bod yn treulio dwyawr bob bore Llun gyda'n disgyblion, wrth iddynt archwilio gwahanol ddulliau creadigol o weithio ar eu projectau DSB.

Mae'r pedwar artist yn rhan o Gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol, sef cynllun a ariennir ar y cyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw datblygu creadigrwydd, dyheadau a chyflawniadau pobl ifainc yng Nghymru, gan gynnig mwy o gyfleoedd iddynt ar gyfer y dyfodol.



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Amserlen Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer 2018

Dydd Mercher 25 – Dydd Gwener 27 Ebrill

Ffenestr Prawf Rhifedd Rhesymu Blwyddyn 7 – 9
– mewn Gwersi Mathemateg

Dydd Llun 30 Ebrill

9.05 Blwyddyn 9 Rhifedd (gweithdrefnol)

Dydd Mawrth 1 Mai

9.05 Blwyddyn 9 Darllen

Dydd Mercher 2 Mai

9.05 Blwyddyn 7 Darllen

Dydd Iau 3 Mai

9.05 Blwyddyn 7 Rhifedd (gweithdrefnol)

Dydd Gwener 4 Mai

9.05 Blwyddyn 8 Darllen

Dydd Mawrth 8 Mai

11.20 Blwyddyn 8 Rhifedd (gweithdrefnol)

Dydd Mercher 9 Mai

11.10 Blwyddyn 7-9 Cymraeg

Dyddiadau allweddol:

Llun 19 Chwefror: Ysgol yn agored i fyfyrwyr

Mawrth 27 Chwefror: Noson Ddewisiadau Blwyddyn 9

Llun 5 Mawrth: Dewch i gyfarfod â'r Arolygwyr 5yp

Mawrth 13 Mawrth: Noson Rieni Blwyddyn 12 & 13

Gwener 23 Mawrth: Diwrnod olaf cyn Gwyliau'r Pasg

Cofiwch fod dyddiadau digwyddiadau allweddol i'w gweld ar ein gwefan hefyd...

Bydd Estyn yn ein harolygu yn ystod yr wythnos sy'n dechrau Mawrth 5ed 2018 ac maen nhw'n awyddus i glywed barn rhieni a gwarcheidwaid. Rydym wedi anfon neges destun at bob rhiant a gwarcheidwad gyda dolen i holiadur, ac fe'ch gwahoddir i'w gwblhau'n gyfrinachol. Os nad ydych wedi derbyn neges destun neu os hoffech gael copi papur o'r holiadur, ffoniwch yr ysgol ar 01492 593243 neu ebostiwch info@aberconwy.conwy.sch.uk cyn Dydd Gwener Chwefror 9fed.



Newyddion Diweddaraf | **Newyddion Diweddaraf** |


Ein disgyblion Blwyddyn Chwech yn gweithio ochr yn ochr â'r BBC!

Ddydd Sadwrn Ionawr 13^{eg} ymunodd tri o'n disgyblion Chweched Dosbarth â Chynhyrchydd a dyn camera BBC Cymru i gofnodi uchafbwyntiau digwyddiad Cymerwch Ran yn Venue Cymru Llandudno. I weld beth ddigwyddodd, cliciwch ar y dolenni isod...



Cliciwch yma i weld y darnau ffilm BBC gorffenedig, sydd wedi cael eu gwyltio 10,000 o weithiau!

Cliciwch yma i weld beth ddigwyddodd y tu ôl i'r Llenni!




Ein llysgenhadon ieithoedd modern newydd...



Da iawn chi, ein llysgenhadon ieithoedd modern newydd ym Mlwyddyn 8 & 9, a gwblhaodd eu hyfforddiant yn ddiweddar. Bydd y llysgenhadon yn cynnal clybiau iaith ac yn hyrwyddo pwysigrwydd a manteision dysgu iaith arall, a byddant hefyd yn trefnu cystadlaethau!

Fedrwn ni ddim aros i weld ieithoedd tramor modern yn cael eu hyrwyddo ymhellach ar draws yr ysgol ...

Llwyddiant ym myd chwaraeon...

Llongyfarchiadau a da iawn chi i dîm pêl-rwyd Blwyddyn 7 & 8 a enillodd fedalau arian ar ôl cymryd rhan mewn twrnamaint pêl-rwyd ym Mangor yn erbyn timau eraill o Ogledd Cymru!



Da iawn chi, tîm pêl-droed merched Blwyddyn 7 & 8, sydd wedi cyrraedd wyth olaf Cwpan Ysgolion Cymru!



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd Blwyddyn 10/11 a ddaeth yn bencampwyr Eryri Ann Smart. Bydd y merched yn mynd ymlaen i gynrychioli ysgolion Eryri yn y Pencampwriaethau Cenedlaethol ym mis Mawrth. Da iawn chi a phob lwc, ferched!!



Llongyfarchiadau i Amelie Partington a lwyddodd i ennill lle ar dîm Eryri a fydd yn cynrychioli ardal y Gogledd Orllewin yn rownd derfynol cystadleuaeth Tymbl a Llofnedid sy'n digwydd yng Nghanolfan Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd ar Fawrth 2il. Pob lwc Amelie!